



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

Jayne Bryant AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Caerdydd  
CF99 1NA

Eich cyf:  
Ein cyf: PO540/EJ/CS

30 Hydref 2018

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Hydref.

Fel y nodwyd yn ein gohebiaeth flaenorol, bydd Comisiwn y Cynulliad yn dymuno cael cyngor ynghylch y posibilrwydd o gael system adrodd ddiennw unwaith y bydd y Comisiynydd Safonau wedi adrodd ar ei waith ar weithdrefnau cwynion y pleidiau gwleidyddol ac unwaith y bydd prawf anhysbys o'n prosesau cwyno wedi'i gwblhau. Roedd cynnal y prawf hwn yn un o argymhellion y Pwyllgor yn ei adroddiad, a dderbyniwyd gennym, a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd 2018. Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi bod yn awyddus i ymateb i sylwadau a glywsom yn y cyfryngau ynghylch cymhlethdod gwahanol systemau, a bod hyn yn cael ei ystyried fel rhwystr rhag gwneud cwynion drwy'r llwybrau ffurfiol. Gan ystyried y materion hyn, bydd y Comisiwn am gael rhagor o gyngor yn gynnar yn 2019 cyn dod i benderfyniad ar broses adrodd anhysbys.

Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Swyddogion Cyswllt newydd ers i ni gyflwyno'r rôl hon ym mis Mai. Darperir y wybodaeth hon mewn termau cyffredinol i sicrhau cyfrinachedd gwaith y Swyddogion Cyswllt fel yr amlinellwyd yn y polisi Urddas a Pharch a'r canllawiau cysylltiedig. Rwyf wedi cael gwybod bod tua wyth cyswllt wedi'i wneud â'r gwasanaeth ac mae pob un o'r unigolion perthnasol wedi cael cyngor ac arweiniad ynghylch y llwybrau priodol ar gyfer gwneud cwyn, a bod cymorth emosiynol wedi'i gynnig i bob un ohonynt. Yn unol â'n canllawiau, caiff y cysylltiadau hyn eu hadrodd yn ddiennw gan y Swyddogion Cyswllt at y Pennaeth Adnoddau Dynol, sydd wedyn yn gallu cadarnhau a oes unrhyw batrymau yn dod i'r amlwg ac a oes angen ymyrryd. Hefyd, ar ddau achlysur, cysylltwyd â'r Swyddogion Cyswllt mewn perthynas ag achosion lle nad oedd y cwynion honedig yn faterion i'r Cynulliad neu i'n Comisiynydd Safonau annibynnol eu hystyried. Cyfeiriwyd yr achwynwyr at Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

yr awdurdod priodol mewn modd sensitif i ymdrin â'u cwynion. Bydd ein Pennaeth Adnoddau Dynol yn parhau i adolygu gwaith ein Swyddogion Cyswllt, gan sicrhau eich bod chi, y Bwrdd Taliadau a Chomisiwn y Cynulliad, sy'n gyfrifol am wahanol grwpiau o bobl sy'n gweithio yma, yn cael gwybod am y cynnydd.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Elin Jones AC  
Llywydd